49. In Annex B, in paragraph B.5, in the first bullet point of the final words, the English text states “have understood the reasons for the decision, **which must** be expressed clearly and concisely (in writing)”. The Welsh text interprets “which must” as referring to “the decision”, and if that is the intention of the English text, the translation is correct. But, if the English text is referring to “the reasons” then the translation has misinterpreted the English text and is incorrect.
50. In Annex C, in paragraphs C.9 and C.15, there are references to “paragraphs 5.17 **to** 5.18”. But they should use the conjunction “**and**” rather than “to” as they are consecutive paragraphs.
51. In Annex C, in paragraphs C.9 and C.16(a), in the English text, there is a slight inconsistency where the word “met” is used in relation to the conditions referred to in paragraphs C.6 and

C.7. But, in paragraphs C.6 and C.7, the panel must be satisfied that the conditions "apply" rather than are "met". The Welsh translation of those paragraphs is consistent and uses the word "apply" in all of those paragraphs.

52. In Annex C, in paragraph C.17, in the final sentence of the Welsh text, the words "bydd eu" have become merged as "byddeu" which doesn't make sense.
53. On page 49, in footnote (33) for paragraph C.18, there are opening brackets before the words "within the meaning of" but there aren't any closing brackets in the footnote.
54. On page 49, in footnote (34) for paragraph C.18, there are square brackets around the words "child arrangements" in the phrase "a [child arrangements] order".
55. In Annex D, in paragraph D.3, in the Welsh text, the translation of the publication "The Equal Treatment Bench Book" is in the blue font colour used for things that "should" be done, underlined and hyperlinked unlike in the English text.
56. In Annex E, it states that "Guidance is available on **the EHRC's** website" but the link is to the **EASS** website. I understand that the EASS is an independent advice service and that it isn't operated by the EHRC. Therefore, this would appear to be incorrect, and should say "the **EASS** website. In addition, it appears as though a bullet point could be missing before the information about the EASS.
    In the Welsh text, there is also a typographical error in the translation of the name of the Equality Advisory and Support Service in the website link where the letter 'h' is missing in "Cyngori" which should be spelt "Cyng**h**ori". Furthermore, the text of the name of that Service appears in different font colours in the Welsh text and the English texts. There are also different words in brackets after the name of the Service in the link in the Welsh and English texts. The Welsh text has "(custhelp.com)" but the English text has "(equalityadvisoryservice.com)".
57. In Annex F, the "Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 ("the 2011 Regulations")" and "Guidance: The Equality Act 2010 (Disabled School Pupils) (Wales) Regulations 2021 [HTML] | GOV.WALES" appear in blue coloured text, underlined and with a hyperlink unlike the other related documents listed in the Annex.
58. In Annex F, in the English text, the case "R (ota l) v The Independent Appeal Panel of St Edward's College [2001] ELR 542" doesn't appear to be in the correct place as it should appear before the case beginning "R (ota K and S)" to be in the correct order.
59. In the Glossary, in the English text, in the entry for "Admission Authority", the second sentence appears in a different font size to the rest of the entries – size 11 rather than 12.
60. In the Glossary, in the entry for "Admission round (normal)", in the English text, "Foundation" has been spelt with a capital first letter in the words "Foundation school" but is spelt with a lower case first letter in the Welsh text. The Welsh text appears to be correct in this instance.
61. In the Glossary, in the Welsh text, in the entry that corresponds to "Infant class size limit", a word is missing after "of the 1998 Act" with the result that the translation doesn't make sense. The Wesh word "yn" should appear after "o Ddeddf 1998" to complete the meaning of the sentence.
    In addition, in the English text of that entry a longer part of the sentence appears in blue, underlined and with a hyperlink compared with the Welsh text.
62. In the Glossary, in the entry for "Looked after children", in the English text, the words in the term "Previously Looked after Children" are all spelt with capital first letters. But only the first word of the term is spelt with a capital letter in the later entry for that term in the

Glossary. In the Welsh text it is spelt consistently with only the first letter capitalised in both places.

63. In the Glossary, in the entry for “Oversubscription” there is a slight difference between the Welsh and English text. In the English text, it refers to “the school’s published admission number”, but the Welsh text has the meaning “the admission number published on the school’s **website**”. In addition, in the Welsh text, it could be argued that it would have been sufficient to put “Goralw” in the heading without the additional explanation, as the entry itself provide an explanation of the meaning of “Goralw” (“Oversubscription”). It also means that if anyone searches for the term “goralw” in the Glossary it will not be found under the letter “g” because the heading begins with the first letter of the explanation “Mwy o…” which doesn’t seem helpful to the reader.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/143/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

15 Mai 2023

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

Ysgrifennaf yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder yn cael ei gynnal ar 24 Mai yn Swyddfa'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Petty France, Llundain.

Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Bellamy KC, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder a byddaf i yno yn bresennol yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfarfod yn debygol o ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r Bil Dioddefwyr sy'n mynd ar ei hynt drwy Senedd y DU ar hyn o bryd, Carchardai, Adferiad y Llysoedd, Cymorth Cyfreithiol, Hawliau Dynol a Chyfraith yr UE a Ddargedwir.

Byddaf yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwenidog Cyfiawnder Cymdeithasol Cymru a'r Prif Chwip.

Yn gywir

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1298/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Mai 2023

Dear Huw,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i'r Pwyllgor o'r bwriad i gytuno i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau, Gwrthwynebiadau ac Ymchwiliadau) (Diwygio) 2023 ("Rheolau Diwygio 2023").

Byddai Rheolau Diwygio 2023 yn gwneud newidiadau i'r broses ar gyfer cyflwyno a phrosesu ceisiadau ar gyfer Gorchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 ("Deddf 1992"), fel y nodir yn Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 ("Rheolau 2006") a Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2004 ("Rheolau 2004"). Bwriedir i'r newidiadau gael gwared ar y ddibyniaeth ar ddogfennau papur ac i'w gwneud yn bosib defnyddio dulliau electronig o gyfathrebu a chyflwyno ceisiadau.

Mae Deddf 1992, gan fwyaf, yn Ddeddf sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchmynion sy'n ymwneud ag adeiladu neu weithredu rheilffyrdd, tramffyrdd a systemau trafnidiaeth cyfeiriedig eraill, neu faterion sy'n ategol i'r systemau trafnidiaeth hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gorchmynion sy'n ymwneud â gweithfeydd sy'n ymyrryd â hawliau mordwyo cyhoeddus.

Caiff Gweinidogion Cymru arfer, ymhlith pethau eraill, y pŵer i wneud Gorchmynion o dan Ddeddf 1992 yng Nghymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ("Gorchymyn 1999").

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheolau 2006

Ni chafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, sef y pwerau perthnasol i wneud rheolau o dan adran 6, 7(4) a 10 o Ddeddf 1992, y gwneir Rheolau 2006 oddi tanynt, eu trosglwyddo gan Orchymyn 1999. Felly, nid oes gan Weinidogion Cymru'r gallu i ddiwygio na gwneud rheolau o dan y pwerau perthnasol i wneud rheolau.

Mae Erthygl 5 ac Atodlen 2 i Orchymyn 1999 yn darparu mai dim ond gyda chytundeb Gweinidogion Cymru y gellir arfer y swyddogaethau hynny sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Mae hyn yn cynnwys y pwerau perthnasol i wneud rheolau o dan Ddeddf 1992. Felly, mae'n ofynnol yn gyfreithiol cael cytundeb Gweinidogion Cymru cyn y gellir gwneud y newidiadau i Reolau 2006, fel y cynigir yn Rheolau Diwygio 2023.

Rheolau 2004

Gwneir Rheolau 2004 o dan adran 9 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 ("y TIA"). Mae adran 9(7) o'r TIA yn darparu, o ran cymhwyso adran 9 i ymchwiliadau a gynhelir yng Nghymru neu gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, bod y pŵer i wneud rheolau yn is-adran (1) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (ac nid gan yr Arglwydd Ganghellor). O ganlyniad, bydd angen i unrhyw ddiwygiadau a wneir i Reolau 2004 mewn perthynas ag ymchwiliadau a gynhelir yng Nghymru gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan, gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn deddfu i wneud diwygiadau i Reolau 2004.

Mae Rheolau Diwygio 2023 yn diwygio Rheolau 2006 a Rheolau 2004. Fodd bynnag, am y rhesymau sydd wedi'u manylu uchod, bydd y diwygiadau i Reolau 2004 yn berthnasol o ran Lloegr yn unig. Bydd y diwygiadau i Reolau 2006 yn gymwys yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r mân newidiadau arfaethedig i Reolau 2006 yn cyd-fynd ag agenda ehangach Llywodraeth Cymru i symleiddio'r prosesau cydsynio a byddai ganddynt fuddion amgylcheddol drwy ddileu'r angen i ddarparu dogfennau papur ar gyfer ceisiadau o dan Ddeddf 1992.

Nid oes gan Reolau Diwygio 2023 oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu.

Byddaf yn diweddaru'r Pwyllgor pan fydd Rheolau Diwygio 2023 wedi'u cytuno.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/146/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

17 Mai 2023

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Rwy'n ysgrifennu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am bedwerydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol. Bydd y cyfarfod hwn yn digwydd heddiw.

Yr ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol) a fydd yn cadeirio'r Pwyllgor Sefydlog. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod.

Yn y cyfarfod rhithwir hwn, rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth y DU, Ardaloedd Buddsoddi a Fframweithiau Cyffredin.

Byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

18 Mai 2023

Annwyl Paul a Huw,

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i drefnu ar gyfer 25 Mai 2023.

Bydd yr agenda yn cynnwys:

- diweddariad ar y trafodaethau ynghylch Cytundeb Masnach Rydd y DU-India
- diweddariad ar Femoranda Cyd-ddealltwriaeth (MoUs), gyda thaleithiau yr Unol Daleithiau, a
- diweddariad ar y trafodaethau ynghylch Cytundeb Masnach Rydd y DU-Canada

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

Vaughan Gething AS/MS
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
–
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

16 Mai 2023

Annwyl Mick,

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Yn y cyfarfod yr wythnos hon, gwnaethom drafod y datblygiadau diweddaraf o ran Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a chyhoeddiad Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf ar y Bil; yn benodol, gwnaethom drafod ei safbwynt newydd ar gyfraith yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu ar ddiwedd 2023.

Rydym yn gwerthfawrogi bod datblygiadau gyda'r Bil i'w gweld yn symud yn gyflym ac rydym hefyd yn ymwybodol nad yw trafodaethau rhynglywodraethol ar y Bil wedi bod gyda'r gorau hyd yma.

Serch hynny, o ystyried arwyddocâd y datblygiadau diweddar, mae nifer o faterion a fydd o bwys mawr i'r Senedd, yn enwedig os gofynnir i Aelodau o'r Senedd wneud penderfyniad cydsynio pellach sy'n gysylltiedig â'r Bil yn dilyn gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Gofynnwn i'r cwestiynau a godir gennym isod gael sylw yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach yr ydym yn rhagweld y byddwch yn ei osod gerbron y Senedd. Byddem hefyd yn croesawu cael cadarnhad mewn gohebiaeth â ni fod hyn wedi cael ei weithredu.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Gwelliant i gymal (1) o'r Bil sy'n dileu'r dyddiad machlud presennol, sef 31 Rhagfyr 2023, ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir ac yn lle hynny yn darparu bod cyfraith yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu yn cael ei rhestru mewn Atodlen newydd

Cwestiwn 1: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y dull newydd a gynigir gan Lywodraeth y DU?

Cwestiwn 2: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y dull newydd hwn cyn cyflwyno'r gwelliannau perthnasol ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi? Os felly, a gafodd unrhyw faterion a/neu bryderon a godwyd gan Lywodraeth Cymru eu hystyried gan Lywodraeth y DU?

Cwestiwn 3: A yw'r rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd i'w dirymu, fel y'i nodir yn y gwelliant ynghylch Atodlen newydd, yn cynnwys offerynnau mewn meysydd datganoledig?

Cwestiwn 4: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir a nodir yn y gwelliant ar Atodlen newydd?

Cwestiwn 5: I ba raddau y gwnaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio ar y rhestr o gyfraith yr UE a ddargedwir sydd yn y gwelliant ar Atodlen newydd?

Cwestiwn 6: A oes gan Lywodraeth Cymru bryderon am unrhyw beth sydd wedi'i restru neu sydd heb ei restru yn y gwelliant ar Atodlen newydd?

Gwelliant yn disodli isadrannau (3) a (4) o gymal 1 a rhoi yn eu lle pŵer newydd i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen rhag cael ei dirymu (rheoliadau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol i gael eu gwneud erbyn 31 Hydref 2023)

Cwestiwn 7: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y gwelliant hwn ac ynghylch rhoi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru?

Cwestiwn 8: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am yr amserlenni ar gyfer adolygu'r rhestr yn yr Atodlen a gosod unrhyw reoliadau angenrheidiol gerbron y Senedd iddi graffu arnynt a'u cymeradwyo cyn y dyddiad dod i ben, sef 31 Hydref 2023?

Cwestiwn 9: Sut a phryd y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddefnyddio'r pŵer hwn?

Cwestiwn 10: I ba raddau y bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i nodi cyfraith yr UE a ddargedwir a'i heithrio o'r rhestr yn yr Atodlen? Sut y bydd anghytundebau, os byddant yn codi, yn cael eu datrys?

Mae dyddiad machlud hawliau a rhwymedigaethau sy'n uniongyrchol effeithiol (diddymu adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018) yn aros yr un fath, sef 31 Rhagfyr 2023

Cwestiwn 11: Ym marn Llywodraeth Cymru, beth yw effaith y machlud hwn o hawliau a rhwymedigaethau sy'n uniongyrchol effeithiol? A fydd yn effeithio ar arfer y pŵer newydd i wneud rheoliadau sydd i'w gynnwys yng nghymal 1(3) newydd, ac ar y pŵer yng nghymalau 13 i 17 i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli neu ddiweddaru?

Cwestiwn 12: Bydd gwelliant 15 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan yn y Senedd cyn diwedd mis Hydref 2023 unrhyw hawl, pŵer, atebolrwydd, rhwymedigaeth, cyfyngiad, rhwymedi neu weithdrefn a fydd yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2023, ac a fyddai'n rhoi cyfle i'r Senedd i benderfynu ynghylch cadw unrhyw hawliau o'r fath ac ati. Beth yw barn Llywodraeth Cymru am welliant 15 yn cael ei dderbyn?

Nid yw pwerau yn y Bil i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli neu ddiweddaru wedi cael eu newid

Cwestiwn 13:Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y ffaith nad yw'r pwerau yng nghymalau 13 i 17 o'r Bil i ailddatgan, atgynhyrchu, dirymu, disodli a diweddaru cyfraith yr UE a ddargedwir wedi cael eu newid?

Cwestiwn 14: A yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau cymal 15 i ddirymu neu ddiwygio meysydd pellach o gyfraith yr UE a ddargedwir cyn diwedd y flwyddyn hon? Os felly, a yw Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau ar y mater, ac a yw'n gwybod a fyddai rheoliadau o'r fath yn y dyfodol yn debygol o gwmpasu meysydd datganoledig?

Cwestiwn 15: A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio unrhyw bwerau a ddarperir iddi yn y Bil i ddirymu, diwygio, disodli neu ddiweddaru unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Senedd neu a ddatganolwyd erbyn diwedd y flwyddyn hon?

Mae pwerau cydredol yn aros yn y Bil

Cwestiwn 16: Beth yw safbwynt cyfredol Llywodraeth Cymru ar y defnydd o bwerau cydredol gan Weinidogion y DU ar faterion a ddatganolwyd i Gymru?

Cwestiwn 17: O dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau o dan y Bil mewn meysydd datganoledig?

Gwelliannau i gymalau 20 a 23 - bydd pwerau canlyniadol, trosiannol, atodol etc yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru

Cwestiwn 18: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn rhoi'r pwerau hyn i Weinidogion Cymru?

Cwestiwn 19: Mae'r pŵer yng nghymal 20 yn cynnwys y pŵer datganedig i ddiwygio'r Bil ei hun. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn?

Materion cyffredinol

Cwestiwn 20: Beth yw barn gyffredinol Llywodraeth Cymru am y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi?

Cwestiwn 21: Beth yw strategaeth ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin â'r Bil yng ngoleuni gwelliannau i'r Bil a dderbyniwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi?

Papur polisi Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU, 'Smarter Regulation to Grow the Economy'

Cwestiwn 22: A wnaeth Llywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ei phapur polisi: 'Smarter Regulationto Grow the Economy'?

Cwestiwn 23: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y cynigion sydd yn y papur?

Cwestiwn 24: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am y meini prawf newydd a nodir yn y papur ar gyfer diwygio neu ddileu deddfwriaeth nad yw bellach yn addas i'r diben?

Cwestiwn 25: Beth yw barn Llywodraeth Cymru am ychwanegu adolygu rheoleiddio domestig yn ogystal â rheoliadau a ddeilliodd o'r UE?

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Mai 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf atoch ynghylch y trais sy'n gwaethygu'n gyflym yn Khartoum ac ar draws Sudan a ddechreuodd ar 15 Ebrill 2023. Byddwch yn gwybod bod Llywodraeth y DU wedi arwain ymarfer achub yn ddiweddar sydd wedi arwain at ddychwelyd mwy na 2,000 o bobl i'r DU, o Sudan, drwy gyfres o hediadau milwrol. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i newid y ffordd y mae'n cymhwyso'r prawf 'preswylfa fel arfer' yn achos pobl sy'n cael eu hachub rhag y trais yn Sudan, a bydd angen ymateb brys ar y newidiadau hyn fel bod ymateb cyfatebol yng Nghymru.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth frys sy'n datgymhwyso'r prawf 'preswylfa fel arfer'—a ddefnyddir i atal rhywun sydd â hawl i ddod i'r DU rhag hawlio budd-daliadau yn syth ar ôl iddynt gyrraedd—yn achos gwladolion Prydeinig, eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu sy'n cael eu trin felly), ac unrhyw un a gafodd ei achub o'r gwrthdaro yn Sudan sydd â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus. Bydd datgymhwyso'r prawf hwn yn galluogi'r rhai sy'n cyrraedd y DU o Sudan i gael mynediad at fudd-daliadau yn syth, gan gynnwys cymorth yng nghyswllt tai a digartrefedd.

Ar hyn o bryd, nid yw Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 yn cynnwys unrhyw esemptiad rhag y prawf 'preswylfa fel arfer' i wladolion Prydeinig neu'r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo os ydynt hefyd am gael mynediad at gyllid cyhoeddus. Rwyf felly wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gymryd y camau sydd eu hangen fel bod newid deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cael ei adlewyrchu yng Nghymru. Mae hynny'n angenrheidiol er mwyn cysoni'r rheolau tai yng Nghymru a chyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn genedl noddfa. Fel y gwyddoch, byddai angen rhwng un a thri mis fel rheol er mwyn cwblhau'r broses hon, ond, o ystyried difrifoldeb y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, mae angen cyflymu'r broses.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023 [“y Rheoliadau diwygio”] yn cael ei drafftio er mwyn sicrhau bod pobl y mae’r trais yn Sudan wedi effeithio arnynt yn gymwys i gael gwasanaethau tai a digartrefedd yng Nghymru, ac maent yn hepgor y prawf ‘preswylfa fel arfer’. Oherwydd natur frys y sefyllfa hon, byddwn yn ddiolchgar pe bai’r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau diwygio yn gynnar ac yn darparu adroddiad brys arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mehefin 2023.

Hoffwn ddiolch i’r Pwyllgor ymlaen llaw am ei gymorth a’i gefnogaeth mewn perthynas â’r trefniadau hyn, a fydd yn rhoi cyfle i bobl sy’n ffoi rhag trais yn Sudan geisio cymorth yng nghyswllt tai neu ddigartrefedd yng Nghymru heb oedi diangen.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
—
Local Government and Housing Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565
—
Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

18 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes, ar 25 Ebrill, wedi cytuno i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon (y "Memorandwm"), gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 15 Mehefin. Yn dilyn hynny, cyfeiriwyd y Memorandwm hefyd at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Cafodd y Memorandwm ei ystyried gennym yn ein cyfarfod ar 11 Mai. Mae'r Memorandwm yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 19 ac 20 gan eu bod yn ymwneud â mater datganoledig gofal cymdeithasol, nad yw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Gallai'r cymalau hyn osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Os caiff ei basio, byddai'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Cartref ddarparu neu drefnu ar gyfer darparu llety i blant ar eu pen eu hunain sy'n bodloni amodau penodol o dan y Bil, ac i drosglwyddo'r plant hynny o lety'r Swyddfa Gartref i ofal awdurdodau lleol, ac i'r gwrthwyneb. Mae Cymal 19 yn galluogi ymestyn y darpariaethau hyn i Gymru heb fod angen cydsyniad y Senedd.

Trafodwyd a ddylid adrodd ar y Memorandwm a phenderfynwyd yn erbyn gwneud hynny, yn bennaf oherwydd bod darpariaethau'r Bil y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor. Er bod y Bil yn galluogi ymestyn darpariaethau i Gymru a thrwy hynny, gallent osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byddai'n afresymol i'r Pwyllgor ystyried pob Bil yn y DU neu'r Senedd sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol Cymru, neu'n trosglwyddo pwerau iddynt.

Yn ogystal, yn ystod ein trafodaethau, cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sydd hefyd yn aelod o'n Pwyllgor, ei bod yn debygol iawn y byddai ei phwyllgor hi yn ymgymryd â

gwaith ar y Memorandwm. Rydym hefyd yn deall y bydd yn cael ei ystyried gan ddau bwyllgor arall: y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ar y sail honno, ac am y rhesymau eraill a amlinellir uchod, rydym wedi penderfynu peidio ag adrodd ar y Memorandwm hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y pwyllgorau eraill y cyfeiriwyd at y Memorandwm atynt er gwybodaeth.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Chair,
Legislation, Justice and Constitution Committee

SeneddLJC@senedd.wales

18 May 2023

Dear Huw,

I refer to the Legislation, Justice and Constitution Committee's report published on the 25 April with their findings and recommendations as part of Stage 1 scrutiny of the Health Service Procurement (Wales) Bill.

I outlined my responses to the Committee's recommendations as part of the General Principles debate on the Bill in Plenary on the 9 May, where I also gave a commitment to provide a full written response. This can be found at Annex A.

I would like to reiterate my thanks to the Committee for scrutinising the Bill and it's supporting documentation.

Yours sincerely

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ANNEX A

HEALTH SERVICE PROCUREMENT (WALES) BILL

WELSH GOVERNMENT RESPONSE TO THE LEGISLATION, JUSTICE AND CONSTITUTION COMMITTEE'S STAGE 1 SCRUTINY REPORT 25 APRIL 2023.
Recommendation 1: ***The Minister should table an amendment to the Bill to alter the heading of the new section 116A of the National Health Service (Wales) Act 2006, to be inserted by section 2 of the Bill, to clarify that the provisions of the Procurement Bill, once enacted, may be disapplied in respect of health services procurement undertaken by NHS organisations and local authorities in Wales.***

Response: NOT ACCEPTED

I understand why the Committee has raised this issue in relation to specifically referencing local authorities in the heading of the new section, which is to be inserted into the Procurement Act 2023.

When developing the Bill we were cognisant that the wording should seek to mirror the approach and powers being taken by the UK Government's Department of Health and Social Care for their Provider Selection Regime, and that the wording should demonstrate that the powers being sought by the Welsh Ministers are identical to those for a Minister of the Crown in the preceding clause.

Also, we were mindful that local authorities procure a wide range of goods and services outside of 'health services' as defined by the Bill. Specifically referencing local authorities in the heading of the new section could in effect be interpreted that the proposed health service procurement regime has a wider application for local authorities; causing confusion and implying that the disapplication power applies to all services procured by local authorities.

The Bill makes it clear that local authorities are named as a 'relevant authority' under section 10A(6) of the National Health Service (Wales) Act 2006, as is to be inserted by section 3 of the Bill.

It is for these reasons that I do not accept recommendation 1 from the Committee.

Recommendation 2: ***The Minister should share for public consultation draft versions of regulations to be made under the new section 10A of the National Health Service (Wales) Act 2006, to inform their further development ahead of the laying of regulations subject to the draft affirmative procedure in the Senedd.***

Response: NOT ACCEPTED
We are fully committed to undertaking a public consultation on the operational principles to inform the development of future regulations for the proposed new health service procurement regime.

As a result, the regulations will be directly developed in partnership with the 'relevant authorities' as defined in the Bill, including NHS Wales, local authorities, and other relevant stakeholders. This stakeholder engagement will take place through various routes; including dialogue with representative organisations and the establishment of working groups to develop and refine the regulations.

We are also mindful that we need to align with the changes being brought about by the introduction of the Provider Selection Regime in England at the earliest opportunity, to minimise the time gap and associated risks of having two differing health service procurement regimes in place between England and Wales.

Undertaking a public consultation on the draft regulations (in addition to the consultation programmed for the development of the regulations), will have limited operational benefit, and place a considerable time delay on the implementation of the new health service procurement regime in Wales and alignment with the proposed procurement regime changes in England.

I do not feel additional consultation processes over and above those already committed to are necessary, and therefore do not accept recommendation 2 from the Committee.

Recommendation 3: The Minister should table an amendment to the Bill to require that regulations under the new section 10A of the National Health Service (Wales) Act 2006 shall not be made until 60 days have elapsed since the laying of draft regulations.

Response: **NOT ACCEPTED**

